
sy'n bwysig i chi a sut gall pawb eich cefnogi orau. Byddwch yn gallu siarad am yr hyn sy'n eich gwneud yn hapus a'r hyn sy'n eich gwneud yn anhapus yn eich bywyd chi. Byddwch hefyd yn siarad am eich gobeithion a'ch breuddwydion ar gyfer y dyfodol, a'r hyn yr hoffech ei gyflawni.

Ar ddiwedd yr adolygiad byddwch yn cytuno ar dargedau ar gyfer y flwyddyn er mwyn eich helpu i weithio tuag at eich gobeithion a'ch breuddwydion.




## Beth fydd yn digwydd ar ôl eich adolygiad?

Erbyn diwedd eich adolygiad bydd pawb wedi cytuno ar Gynllun Gweithredu. Bydd y Cynllun Gweithredu'n sicrhau y gall pawb weld yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i'ch helpu i ddysgu.

Bydd y Cynllun Gweithredu'n esbonio:

- pa gymorth rydych am ei gael a'r hyn y mae'n rhaid i chi ei ddysgu
- pwy fydd yn sicrhau eich bod yn cael y cymorth hwn
- pryd, ble a pha mor aml byddwch yn cael y cymorth hwn

Ar ôl yr adolygiad, byddwch yn gallu darllen y Cynllun Gweithredu a siarad amdano gyda'ch teulu a'ch ffrindiau.



I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Cefnogi Dysgu
Rhif ffôn: 01639763080
E-bost: learning.support@npt.gov.uk

Tîm Cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol
Rhif ffôn: 01639763158
E-bost: ALNST@npt.gov.uk

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council


# Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar y person



## Gwybodaeth i blant a phobl ifanc

## Beth yw adolygiad sy'n canolbwyntio ar y person? ?

Yn ystod eich adolygiad byddwch chi, eich teulu a phobl eraill sy'n eich cefnogi yn siarad am sut i'ch helpu. Byddwch yn gallu dweud wrth bawb yr hyn sy'n bwysig i chi ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol, a gallwch siarad am yr hyn sy'n mynd yn dda i chi a'r hyn rydych am ei newid yn eich bywyd.



## Pwy fydd yn eich adolygiad?




Chi yw'r person pwysicaf felly, byddwn wrth ein boddau pe baech chi yno. Byddwch yn gallu dweud eich dweud am yr holl benderfyniadau a wneir.

Gallwch wahodd y bobl sy'n bwysig i chi megis teulu, ffrindiau neu bobl sy'n eich helpu yn yr ysgol.


Efallai bydd pobl eraill sy'n eich helpu yn bresennol hefyd, fel Therapydd Iaith a Lleferydd.

Efallai bydd llawer o bobl yno neu efallai mai chi, rhywun o'ch teulu a rhywun o'ch ysgol yn unig fydd yn bresennol.

## Ble a phryd cynhelir yr adolygiad?

Mae'n debygol y cynhelir yr adolygiad yn eich ysgol. Bydd rhywun yn eich helpu i baratoi'ch adolygiad. Gallwch benderfynu gyda'ch gilydd ar ble a phryd y cynhelir yr adolygiad. Gallwch anfon gwahoddiad at y bobl yr hoffech iddynt fod yn bresennol.

## Sut gallwch chi baratoi ar gyfer eich adolygiad?



Gallwch ddefnyddio'r daflen hon i'ch helpu i baratoi ar gyfer eich adolygiad. Mae hefyd daflen i chi ysgrifennu'r pethau rydych am eu dweud yn ystod yr adolygiad ac unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

Os nad ydych yn mynd i'r adolygiad mae'n bwysig eich bod yn mynegi'ch barn o hyd. Os nad ydych chi'n mynd i aros am yr adolygiad llawn, mae'n bwysig eich bod chi'n mynegi'ch barn o hyd. Gallwch ysgrifennu'ch barn ar y daflen a roddir i chi a rhoi'r daflen hon i'ch athro.

## Beth fydd yn digwydd yn eich adolygiad?

Bydd yr adolygiad yn rhoi cyfle i bawb siarad am ba mor dda rydych wedi'i wneud eleni. Gallwch ddewis lle bydd pobl yn eistedd. Gallwch ddewis a ydych am gael cerddoriaeth neu fyrbrydau a diodydd, megis eich hoff fisgedi, yn yr adolygiad.



Bydd rhywun o'ch ysgol yn arwain eich adolygiad. Bydd yn sicrhau bod barn pawb yn cael ei chlywed, gan gynnwys eich barn chi.

Bydd y sgwrs yn dechrau gyda phawb yn dweud eu henwau a'r hyn maent yn ei hoffi amdanoch.

Bydd pawb yn gallu rhannu eu syniadau. Byddwch yn cael cyfle i siarad am yr hyn